



Cynllun **Gwirfoddolwyr**  
**Volunteer** Scheme

## **Disgrifiad Rôl y Gwirfoddolwr** **Gwirfoddolwr Cefnogol Diogelwch Cymunedol**

### **Prif Bwrpas y Swydd**

---

Mae Adran Diogelwch Cymunedol a Phartneriaethau Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n cyflenwi amryfal fentrau a phrosiectau o fewn y gymuned. Rydym yn chwilio am wirfoddolwyr addas i gefnogi hyrwyddiad a darpariaeth negeseuon diogelwch allweddol fel addysg diogelwch yn y cartref a diogelwch ar y ffyrdd, ac i gyfranogi mewn digwyddiadau a mentrau ymgysylltu lleol o fewn ein cymunedau.

### **Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau**

---

- I fynychu a chefnogi darpariaeth mentrau a digwyddiadau diogelwch cymunedol ar draws ardal GTADC.
- Gweithredu fel 'eiriolwyr' diogelwch cymunedol, i gynorthwyo wrth gyflawni negeseuon diogelwch ac addysg diogelwch ar y ffyrdd allweddol ymhlith ein grwpiau targed.
- Dosbarthu gwybodaeth wedi'i thargedu (llenyddiaeth) i gymunedau lleol lle bo'n ofynnol.
- I ufuddhau i bolisiau a gweithdrefnau a ddarperir gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru ar bob adeg
- I ymgymryd â hyfforddiant ymwybyddiaeth mewn perthynas â'r rôl.
- I fynychu sesiynau gwybodaeth, hyfforddi ac adolygu grwpiau gwirfoddol cymeradwy.
- Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n ymroddedig i ddiogelu a hyrwyddo llesiant plant ac oedolion bregus, a disgwylia pob gwirfoddolwr i rannu'r ymrwymiad hwn.

### **Sgiliau, Profiad a'r Gallu Gofynnol**

---

- Sgiliau rhyngbersonol da.
- Dull cyfeillgar, hyderus ac agos atoch.
- Cyfrifol a dibynadwy.
- Yn gyfforddus wrth siarad â chynulleidfaoedd mawr.
- Y gallu i weithio o fewn tîm a dilyn cyfarwyddyd.
- Sgiliau ysgrifenedig a llafar da.
- Profiad blaenorol o gyflogaeth neu wirfoddoli mewn rôl sy'n ymwneud â'r cyhoedd yn ddymunol.
- Y gallu i siarad Cymraeg neu ieithoedd ychwanegol yn ddymunol.



## Hyfforddiant a Chefnogaeth

---

- Cynhelir cyfnod anwytho cyflawn i'ch helpu i ddeall beth mae GTADC yn gwneud, sut yr ydym yn ei wneud a sut mae eich rôl yn cefnogi darpariaeth diogelwch cymunedol.
- Darperir hyfforddiant ymwybyddiaeth llawn i'ch galluogi i ymgymryd â'r rôl hon yn effeithiol.
- Lle bo'n bosib, yn gychwynnol, bydd gwirfoddolwyr yn gweithio â staff Diogelwch Cymunedol.
- Bydd pob gwirfoddolwr yn ymgymryd â'r gwiriadau angenrheidiol ar y lefel briodol ar gyfer eu dyletswyddau.
- Darperir adborth a chefnogaeth reolaidd.

## Lleoliad y rôl

---

Lleoliadau amrywiol ar draws Ardal Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru sy'n cwmpasu 10 Awdurdod Unedol.

## Oriau ac Ymroddiad

---

Mae oriau'n hyblyg a gall fod yn ddibynol ar ddyddiadau ac amseroedd mentrau a digwyddiadau. Lleiafswm awgrymedig o 8 awr y mis.

## Treuliau

---

Ad-delir treuliau allan o boced a theithio y cytunwyd ar gychwyn.

## Gofynion Gwisg

---

Darperir gwisg ac adnabyddiaeth i'ch galluogi i ymgymryd â'ch rôl.

## Responsible to

---

Y mentor Diogelwch Cymunedol arweiniol wrth ymgymryd â gweithgareddau. Goruchwyliwyd gan y Rheolwr Ieuentid a Gwirfoddoli.

Ar gyfer y rôl hon, mae'n **RHAID** i wirfoddolwyr fod dros 16 oed.